Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd o Orffennaf 2019.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones, Anwen Humphreys – Garndolbenmaen, Gwilym Evans – Prenteg, Huw Pritchard, Delyth Evans – Pentrefelin, Amanda N Owen – Golan, Dafydd Thomas, Gwenno Huws – Penmorfa, Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

2 Ymddiheuriadau – Clifford Williams, Richard Williams, Megan Ll Williams

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – neb

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 6/6/19 Dafydd Thomas yn datgan eu cywirdeb a Gwilym Evans yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Problemau Parcio Garndolbenmaen - Derbyniwyd ateb gan Wasanaeth Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn nodi y byddent yn ail edrych i mewn i'r sefyllfa ac yn cynnig cyfarfod safle. Clerc i drefnu dyddiad cyfleus ar gyfer y cyfarfod safle.

Cae Chwarae Penmorfa - cafwyd arweiniad gan Meysydd Chwarae Cymru ynglŷn â gwneud cais am grant. Dylai ceisiadau cael eu gwneud yn enw'r elusen.

Prenteg

Rheilffordd Eryri – disgwyl ateb.

Coed yn yr afon - Oherwydd bod y coed yn pwyso ar y bont, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu symud. Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd.

Materion ail-gylchu Garndolbenmaen - Bydd Adran Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd yn monitro'r sefyllfa. Rhannwyd gwybodaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd yn nodi sut maent yn bwriadu ymateb i bryderon am finiau yn rhwystro palmentydd.

7 Mynwentydd

Rhoddwyd braslun o'r materion a drafodwyd yn y Pwyllgor Mynwentydd a gynhaliwyd cyn cyfarfod llawn y Cyngor.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Mynydd Glas heibio Garreg Lwyd – heb ei dorri. Adroddwyd fod y Contractwr yn bwriadu ei dorri yn ystod yr wythnos. Clerc i gysylltu i gael cadarnhad o hyn.

Llwybr Tŷ Mawr - angen torri'r ochrau. Clerc i gysylltu gyda'r Contractwr.

Llwybrau Prenteg – wedi cael eu torri.

Golan - adroddwyd fod grŵp o ieuenctid yn cymryd rhan yng nghynllun Dug Caeredin yn dringo dros y giatiau yn hytrach na'u hagor. Clerc i gysylltu gyda swyddfa y cynllun yng Nghymru.

9 Adroddiad Pentrefi

Pentrefelin

Lloches Bws - derbyniwyd ateb gan Wasanaeth Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn rhoi ei barn ar y lleoliadau arfaethedig ar gyfer y lloches bws. Penderfynwyd trafod y mater eto.

Lôn Treflys – angen torri'r gwair.

Blwch Halen Allt Tŷ Mawr – angen ei dynnu o'r safle.

Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Golan

Lôn Cwmystradllyn i Prenteg - lôn wedi rhoi wrth y 2 grid gwartheg cyntaf. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Gwaith ail wynebu cylch Golan - Darn canol o'r lôn wedi ei adael allan o'r gwaith. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Garndolbenmaen

Pwyntiau i drydanu batri ceir trydanol - Clerc i wneud ymholiadau os oes grantiau ar gael i'w gosod tu allan i Neuaddau Pentrefi.

Bryncir

Adroddwyd fod sawl damwain wedi digwydd yn ardal Glandwyfach. Clerc i gysylltu gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd i ofyn am gael cyfarfod safle.

10 Clwb Moduro Harlech

Derbyniwyd e-bost gan y Clwb i hysbysu'r Cyngor ei bod yn bwriadu rhedeg rali yn yr ardal yn ystod Mehefin 2020. Penderfynwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i hyn ar yr amod ei bod yn cysylltu gyda thrigolion lleol cyn y digwyddiad.

11 Cyfethol Cynghorwyr

Derbyniwyd llythyr gan Iddon Edwards yn datgan diddordeb mewn llenwi sedd wag Penmorfa. Penderfynwyd ei wahodd i ymuno a'r Cyngor.

Garndolbenmaen

Ni dderbyniodd Cyngor Gwynedd cais i gynnal etholiad. Gall y Cyngor Cymuned gyfethol aelod i'r sedd wag. Penderfynwyd hysbysebu'r sedd wag yn y papurau bro ac ar y wefan.

12 Gwasanaeth o Ddrws i Ddrws

Adroddwyd fod Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn ariannu cynllun i ddanfon pobl i'w Meddygfeydd lleol.

13 Toriad yng ngwasanaeth Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion

Adroddwyd fod yr heddwas sy'n cysylltu gyda'r ysgolion yn ardal Dwyfor ac Arfon wedi cael ei symud i swydd arall er mis Mai. Ni fydd unrhyw gyswllt gyda'r ysgolion tan fis Medi. Mynegwyd pryder am ddyfodol y

gwasanaeth. Clerc i gysylltu gydag Uwch Swyddogion a Chomisiynydd yr Heddlu.

14 Toriadau staffio Ysgol Addysg Prifysgol Cymru Bangor

Clerc i gysylltu gyda Megan Ll Williams cyn gweithredu ar y mater.

15 Gohebiaeth
Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Rheoliadau Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio.

Gohebiaeth ychwanegol

a Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol Drafft – CCA8: Llety Ymwelwyr.
b Parc Cenedlaethol Eryri – Dyddiadau i'ch dyddiadur nosweithiau Cynghorau Tref a Chymuned Medi a Hydref 2019.
c Unllais Cymru – Cynrychiolydd Unllais Cymru ar Grŵp Cyfeirio Rhanddaliad Betsi Cadwaladr (Michael Parry).
ch Cylchlythyr y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

16 Cynllunio

Rhestrau 10/6, 14/6, 24/6 Ychwanegwyd 1/7/19.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/L261B dyddiedig 8/10/2018 – Diwygio amodau rhif 2 a 6 i newid deunyddiau ffenestri, drysau allanol a sied, Y Trip, Taleifion, Garndolbenmaen. LL51 9RZ Dyddiad cau 29/06/2019. Dim gwrthwynebiad

17 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Dim.

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

GDPR – ffurflen cofrestru wedi ei gwblhau.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£123.26 (Medi ac Awst)
A Hughes Jones, Dyson a'u Cwmni	=	£360.00
Deunyddiau Swyddfa	=	£112.60
Papur Bro Yr Wylan	=	£ 16.00
Ychwanegwyd:		
Gwasg y Bwthyn	=	£ 14.64
Aled Jones	=	£ 75.00
Idris Jones	=	£864.00
Cymru1	=	£350.40

Derbyniadau: Ad-daliad TAW £662.20, Roberts & Owen £135.00, Pritchard & Griffiths £280.00.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,810.02 Cyfredol £9,035.82

18 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Cynghorwr Newydd
- Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion
- Problemau Parcio Garndolbenmaen

Gwefan – Cofnodion, Hysbyseb sedd wag.